Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Syr Thomas Jones
# Pentrefelin
# Amlwch
# Ynys Mon
# LL68 9TH

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2012**

**gan**

**Mr Gwyn Thomas**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 29/06/12**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Syr Thomas Jones yn ysgol gymunedol ddwyieithog i fechgyn a merched rhwng 11 ac 18 oed a gaiff ei chynnal gan Awdurdod Unedol Ynys Môn. Mae'r ysgol wedi ei lleoli yn nhref Amlwch, Ynys Môn. Mae'n gwasanaethu'r dref, a'r dalgylch gwledig o fewn rhyw ddeg milltir o radiws.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o bob gallu.

Mae 647 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol gyda113 yn y chweched dosbarth. Yn ystod yr arolygiad diwethaf yn Ebrill 2006, roedd 878 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 116 yn y chweched dosbarth.

Mae gan yr ysgol gyfwerth â 40.24 o staff addysgu llawn amser.

Yn 2010-2011, roedd gan 14.72% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr hwn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.4%.

Canran y disgyblion o oed ysgol orfodol sydd ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig yw 22.4% sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 20.2%. O'r rhain mae gan 4.8% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae 17.6% angen cymorth ychwanegol.

Mae 34% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae 82% yn sefyll arholiad Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Penodwyd y pennaeth i ddechrau ei swydd ym Medi 2006. Mae pob aelod o'r uwch dim rheoli yn newydd i'w swydd ers yr arolwg diwethaf.

Mae'r ysgol yn anelu at sicrhau addysg o'r safon uchaf bosib i bob disgybl. Mae'n eu harwain i ddatblygu i fod yn unigolion cyfrifol ac aeddfed, fel y gallant fod yn aelodau llawn a gweithredol o gymdeithas ddwyieithog.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Syr Thomas Jones yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £4111 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Ynys Môn yw £4111 a'r lleiafswm yw £3759. Mae Ysgol Syr Thomas Jones yn y safle cyntaf o'r pum ysgol uwchradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys:

- arweinyddiaeth y pennaeth a'r ethos Gymreig a gofalgar y mae wedi llwyddo i'w sefydlu;
- agwedd gadarnhaol yr athrawon i goleddu syniadau newydd a'u datblygu;
- cefnogaeth frwd a dealltwriaeth drylwyr y corff llywodraethol; a'r
- ddarpariaeth gwricwlaidd addas ar gyfer yr holl ddysgwyr.

Barnwyd bod cynnydd presennol yn ddigonol oherwydd:

- safonau boddhaol yn nhri o'r pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4, sef Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, a'r effaith negyddol y maent yn eu cael ar drothwy 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg a'r dangosydd pynciau craidd;
- er bod gan yr ysgol strategaeth dda ar gyfer codi safonau, nid yw'r cyfnod amser wedi bod yn ddigonol i sicrhau effaith gadarnhaol hyd yma yn y pynciau craidd uchod; ac
- anghysondeb mewn safonau addysgu mewn ychydig o wersi.

### Rhagolygon gwella

Barnwyd bod rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- arweinyddiaeth arbennig y pennaeth a'r gefnogaeth dda gan yr uwch dîm rheoli;
- safonau cadarn mewn llawer o'r pynciau all graidd yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4;
- hunan arfarnu ysgol o safon uchel a chynllun ar gyfer gwelliant miniog;
- ansawdd da yr addysgu a'i effaith gadarnhaol ar y safonau yng nghyfnod allweddol 3;
- cefnogaeth ac arweiniad rhagorol i ddysgwyr; a'r
- modd y mae'r gyllideb yn cael ei rheoli'n effeithiol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Syr Thomas Jones:

A1 barhau i godi safonau mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4 i sicrhau safonau da neu dda iawn yn y trothwy 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg a'r dangosydd pynciau craidd;

A2 godi safonau rhifedd yng nghyfnod allweddol 4;

A3 barhau i geisio gwella presenoldeb;

A4 barhau i rannu arferion gorau o ran dysgu ac addysgu er mwyn codi safonau yn benodol mewn Saesneg a gwyddoniaeth;

A5 ddatblygu cyfundrefn fwy ffurfiol o dracio cynnydd disgyblion abl a thalentog; a

A6 gweithio gyda'r awdurdod lleol i wella system wresogi a ffenestri'r ysgol.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Dros gyfnod o dair blynedd, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella ym mron yr holl ddangosyddion ac mae bellach yn agos i gyfartaledd ysgolion tebyg. Nid yw perfformiad ar y lefel uwch mor gryf. Mae perfformiad yn y rhan fwyaf o bynciau nad ydynt yn rhai craidd yn uwch yn 2011 nag oedd yn 2009. Yn 2011, mae cynnydd o'r cyfnod allweddol blaenorol yn dda neu'n dda iawn yn yr holl ddangosyddion.

Yng nghyfnod allweddol 4 dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y dangosyddion hynny sydd yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi amrywio ac yn is neu lawer yn is na'r cyfartaledd o'u cymharu gyda'r rhai mewn ysgolion tebyg ar bob achlysur. Mae perfformiad yn y dangosyddion sydd yn cynnwys amrediad eang o gymwysterau wedi bod yn uwch yn 2011 o'i gymharu â 2009. Yn gyffredinol, mae perfformiad yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ac yn is na chyfartaleddau'r teulu. Mae canlyniadau mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn is na'r rhai mewn ysgolion tebyg am dair blynedd. Mae canlyniadau mewn Cymraeg iaith gyntaf gan amlaf wedi bod yn uwch ac wedi gwella'n arwyddocaol yn 2011.

O'i gymharu â'u perfformiad yn y cyfnod allweddol blaenorol, mae cynnydd disgyblion yn is neu lawer yn is na'r cyfartaledd ym mron yr holl ddangosyddion.

Dros y tair blynedd diwethaf, gadawodd bron yr holl ddisgyblion yr ysgol gyda chymhwyster a pharhaodd cyfran uchel i addysg llawn amser ôl-16. Adroddir nad oedd tua 2% o'r disgyblion a adawodd yr ysgol yn un ar bymtheg mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad myfyrwyr yn gyffredinol yn dda neu dda iawn. Mae cyflawniad yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru yn dda iawn.

Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae'r gwahaniaeth ym mherfformiad bechgyn a merched yn gyffredinol yn llai na'r bwlch yng nghyfartaleddau Cymru a'r teulu. Yng nghyfnod allweddol 3, yn gyffredinol, mae bechgyn yn perfformio'n well na'r merched mewn mathemateg. Yng nghyfnod allweddol 4, perfformiodd y bechgyn yn well na'r merched mewn rhai o'r dangosyddion sydd yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg.

Dros gyfnod o dair blynedd, nid yw disgyblion cyfnodau allweddol 3 a 4 sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â'r rhai sydd heb yr hawl i brydau ysgol am ddim. Yng nghyfnod allweddol 3, mae disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn perfformio'n well na disgyblion tebyg o'u cymharu â'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae perfformiad yn gwella o'i gymharu gyda chyfartaleddau'r teulu. Yng nghyfnod allweddol 4, mewn cymhariaeth â disgyblion tebyg, mae perfformiad disgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim bron bob amser yn is na chyfartaleddau'r teulu yn yr holl ddangosyddion.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn perfformio'n well yng nghyfnod allweddol 3 nag ydynt yng nghyfnod allweddol 4. Mae disgyblion mwy galluog yn perfformio'n dda.

Yn gyffredinol, mae cyflawniad a chynnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y rhan fwyaf o wersi a arsylwyd yn dda. Mae disgyblion yn cymhwyso'r hyn a ddysgwyd yn flaenorol yn dda ac yn defnyddio hyn i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda iawn ar eu hathrawon ac i'w gilydd. Yn gyffredinol, mae safonau darllen yn dda ac mae llawer o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Darllenant yn hyderus a gyda mynegiant i'w gilydd mewn parau. Defnyddia llawer o ddisgyblion derminoleg pwnc benodol yn dda iawn mewn llawer o ddosbarthiadau.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu paragraffau byr o ansawdd da ac mae ganddynt falchder yng nghyflwyniad eu gwaith. Mae disgyblion mwy galluog yn ysgrifennu'n estynedig ac yn dda. Mae ansawdd y cyflwyniad yn y llyfrau gwaith yn dda gan amlaf yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Fodd bynnag, yn y lleiafrif o lyfrau a welwyd, ceir camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadegol. Mae disgyblion sydd yn derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer darllen ac ysgrifennu yn gwneud cynnydd da.

Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn defnyddio'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda ar gyfer ymchwil ac i wella eu cyflwyniad.

Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi cyrraedd safonau da yn y rhan fwyaf o'r medrau hanfodol. Fodd bynnag, mae rhifedd yn gryfach yng nghyfnod allweddol 3 nag yw yng nghyfnod allweddol 4. Yn y chweched dosbarth, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cyflawni safonau da iawn yn eu medrau o gyfathrebu, gweithio gydag eraill a gwella dysgu eu hunain.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae canlyniadau mewn Cymraeg iaith gyntaf wedi bod yn dda ac yn gymharol gyson dros y tair blynedd diwethaf. Gan amlaf, maent wedi bod yn uwch na'r rhai mewn ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, cofrestrir cyfran uchel o ddisgyblion ar gyfer yr arholiad TGAU llawn mewn Cymraeg iaith gyntaf. Mae cyflawniad disgyblion yn y cwrs hwn ar raddau A*-C yn dda ac yn uwch na chyfartaledd ysgolion tebyg. Mae medrau dwyieithog disgyblion yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn dda neu well.

### Lles: Da

Teimla'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddiogel yn yr ysgol a derbyniant gymorth personol da. Teimla llawer fod yr ysgol yn effeithiol wrth ddelio gyda'r ychydig achosion o fwlian. Mae llawer yn deall pwysigrwydd byw yn iach gyda nifer fawr yn cyfranogi mewn ymarfer trwy ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn ystod ac ar ôl oriau ysgol.

Mae ymddygiad o amgylch yr ysgol ac yn y dosbarth yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ystyriol a chwrtais. Dros y tair blynedd diwethaf gwaharddwyd un disgybl yn barhaol ac ychydig iawn o waharddiadau tymor penodol a geir.

Mae cyfraddau presenoldeb yn gwella'n flynyddol ac yn agos iawn i'r lefel disgwyliedig o ran presenoldeb. Mae'r gyfradd ar gyfer 2011 yn agos i'r cyfartaledd

cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau hyn yn llawer is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ac yn is na chyfartaledd y teulu. Mae bron yr holl ddisgyblion yn brydlon i'w gwersi.

Nodwedd gref o'r ysgol yw bod y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau yn y gymuned. Mae llawer yn cyfranogi'n llwyddiannus mewn prosiectau ac yn codi symiau sylweddol o arian ar gyfer elusennau yn flynyddol. Maent yn ennill lefelau gwerthfawr iawn o brofiad a hyder. Ymgynghorir â'r dysgwyr ar amrediad eang o weithgareddau, gan gynnwys crynhoi'r dewisiadau opsiwn. Gwnânt gyfraniad da tuag at amryw o agweddau bywyd ysgol trwy weithgareddau'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco a grŵp gweithredu maethiad yr ysgol.

Mae'r datblygiad o fedrau cymdeithasol a bywyd y disgyblion yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn arddangos medrau da wrth ddatrys problemau ac yn cydweithio'n dda. Dangosant gryn ofal a chonsyrn tuag at eu cymheiriaid. Mae'r paratoad o'r disgyblion ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol wedi bod yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sydd yn llwyr ddiwallu'r gofynion statudol, yn ogystal ag anghenion ei holl ddisgyblion. Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn sicrhau dilyniant a pharhad o gyfnod allweddol 2. Mae'r wers sgiliau wythnosol ym Mlwyddyn 7 yn gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at godi safonau.

Cynigia'r ysgol ystod gynhwysfawr o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Caiff yr holl ddisgyblion gyfle i ennill cymwysterau. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r fenter Llwybrau Dysgu 14-19. Ceir partneriaeth gynhyrchiol a llwyddiannus gydag ysgolion uwchradd eraill Ynys Môn, Coleg Menai a darparwyr lleol eraill.

Mae'r trefniadau hyn yn ehangu'r ddarpariaeth ac yn helpu wrth resymoli cyrsiau. Mae'r ysgol yn rhagori ar ofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru). Mae disgyblion a myfyrwyr yn dilyn y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru sydd yn darparu llwybrau priodol at gymwysterau pellach.

Ceir amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol sydd yn cyfrannu tuag at ddatblygu sgiliau disgyblion. Mae'r ysgol yn cefnogi prosiectau cymunedol yn dda, yn fwyaf nodedig trwy gyfraniad rhagorol Clwb y Pethe (clwb yw hwn sydd yn cysylltu'n llwyddiannus iawn gyda'r partneriaid ysgolion cynradd er mwyn hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol).

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau dysgwyr yn gynhwysfawr ar y cyfan. Mae'r cyfleoedd i'r holl ddysgwyr wella eu medrau llythrennedd wedi eu datblygu'n dda. Mae'r ddarpariaeth o'r medrau allweddol yn y chweched dosbarth yn dda iawn. Fodd bynnag, digonol yw'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd yng nghyfnod allweddol 4.

Mae strategaethau i ymestyn y disgyblion mwy galluog a dawnus yn datblygu.

Ar draws yr ysgol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn dda iawn. Yng nghyfnod allweddol 4, caiff bron yr holl ddisgyblion eu cofrestru ar gyfer y cwrs Cymraeg iaith gyntaf. Mae dilyniant a pharhad ar draws y cyfnodau allweddol yn dda iawn. Mae'r dimensiwn Cymreig yn atgyfnerthu'r agwedd gadarnhaol a arddangosir gan yr ysgol tuag at hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Cymru.

Mae'r ddarpariaeth o ran addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n dda. Mae'r ysgol yn ymddwyn mewn modd cynaliadwy gan annog y disgyblion i leihau gwastraff ac arbed ynni. Mae gan yr ysgol bartneriaeth hir-sefydlog gydag ysgol yn Zambia. Mae'r ysgol yn gweithio tuag at y wobr arian fel ysgol eco ac wedi bod yn gyfryngol wrth sicrhau plannu 11,000 o goed yn lleol a adnabyddir fel “Coed y Felin”.

### Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn dda neu well mewn llawer o wersi. Yn yr ychydig wersi rhagorol a arsylwyd, roedd gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn, roeddent yn sicrhau ymrwymiad llawn y disgyblion, yn defnyddio ystod o weithgareddau hynod o ddychmygus ac yn sicrhau fod yr addysgu'n cael effaith gadarnhaol ar y dysgu. Lle mae'r addysgu yn dda, mae athrawon yn ymateb yn dda i'r amrywiaeth o arddulliau dysgu mae disgyblion yn hoffi ac yn defnyddio eu gwybodaeth pynciol yn effeithiol i fwydo'r cynllunio. Defnyddiant amrediad da o strategaethau ac adnoddau dysgu. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o fyrddau rhyngweithiol ar draws yr holl gyfnodau allweddol. Defnyddir targedu gofalus o adnoddau dysgu dwyieithog yn dda iawn er mwyn cynorthwyo disgyblion sydd â chaffael llai datblygedig o'r iaith Gymraeg. Mae'r her a'r cyflymder o fewn gwersi yn dda. Mae'r perthnasau rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn agwedd gadarnhaol o'r ysgol. Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw'r addysgu yn llwyddo ysgogi ac ymrwymo'r disgyblion.

Ar y cyfan, mae ansawdd y marcio yn dda. O fewn rhai meysydd pwnc mae'n rhagorol gyda llyfrau'n cael eu marcio'n gyson gyda sylwadau llawn gwybodaeth. Mae'r adborth llafar i'r disgyblion o safon uchel. Mae disgyblion yn dynodi eu meini prawf llwyddiant yn eithriadol o dda ac yn dda iawn wrth arfarnu perfformiad eu hunain a pherfformiad disgyblion eraill.

Caiff cynnydd a lles disgyblion eu tracio'n effeithiol. Ceir system tracio hygyrch ac ymatebol iawn sydd yn sicrhau dynodiad cyflym o dangyflawniad. Mae disgyblion yn adolygu eu cynnydd yn dda. Maent yn cymryd rhan reolaidd wrth osod eu targedau dysgu.

Mae'r adroddiadau i rieni a gofalwyr yn dda. Mae'r holl sylwadau a'r targedau ar gyfer gwelliant yn bwnc penodol ac yn darparu gwybodaeth eglur. Mae'r adroddiadau interim yn darparu cyfle gwerthfawr ar gyfer ymatebion gan y rhieni a'r disgyblion.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth dda iawn ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn darparu ystod eang o weithgareddau sydd yn ychwanegu yn dda at y profiadau dysgu. Mae staff ysgol ac arbenigol yn darparu system mentora effeithiol iawn.

Cynigir amrediad eang o arweiniad o ansawdd dda wrth wneud dewisiadau opsiwn ar gyfer dysgu i'r dyfodol. Mae'r rhain yn cyfrannu'n fawr tuag at gefnogi dysgu'r disgyblion ac yn sicrhau fod bron pob un ohonynt yn gadael yr ysgol gyda chymwysterau addas.

Mae ansawdd y gefnogaeth bersonol a gynigir gan yr anogwyr dysgu yn nodwedd arbennig o ddarpariaeth addysg Llwybrau Dysgu 14-19.

Caiff datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion ei hyrwyddo yn effeithiol iawn ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelwch.

Mae'r trefniadau ar gyfer diwallu anghenion disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhagorol. Ychwanegir at y rhain trwy amrediad eang o weithgareddau cefnogol caiff eu cynllunio'n dda iawn.

Cyflwynir cynlluniau addysgol unigol yn dda iawn. Maent yn benodol a chânt eu hadolygu'n gyson gan y staff a'r disgyblion.

Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn darparu cyngor o ansawdd dda ar sut i addasu tasgau a strategaethau. Caiff cynnydd disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth eu monitro yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau caiff safonau eu harfarnu a'u cofnodi'n gyson. Mae cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth gwerthfawr yn ystod gwersi.

### Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn arddangos ethos gofalgar a chynhwysol lle mae staff a disgyblion yn dangos parch y naill at y llall. Ceir pwyslais amlwg ar gydnabod amrywiaeth a chydraddoldeb. Mae adeiladau ac ystafelloedd yr ysgol yn dda a chaiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda. Fodd bynnag, mae system wresogi'r ysgol yn aneffeithiol ac mae angen adnewyddu rhai ffenestri.

Mae'r trefniadau ar gyfer disgyblion ag anableddau corfforol yn dda iawn ac mae'r ysgol yn diwallu eu hymrwymiadau cyfreithiol yn llawn.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd golau, gofalgar a chroesawgar ar gyfer yr holl ddysgwyr. Mae arddangosfeydd da yn y coridorau ac yn enwedig yn y dosbarthiadau yn hyrwyddo dysgu ac yn dathlu llwyddiant.

Ceir darpariaeth dda ar gyfer chwaraeon yn yr ysgol ac yn y ganolfan hamdden oddi ar y safle.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol a ddarperir gan y pennaeth yn rhagorol. Mae ei ddirprwy bennaeth yn darparu cefnogaeth arbennig a gyda'i gilydd maent wedi peri gwelliannau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf. Maent wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth ddatblygu ethos dwyieithog yr ysgol.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu llinellau cyfathrebu neilltuol o eglur ac mae ganddo ddisgwyliadau uchel a chyson o aelodau'r staff ar bob lefel. Caiff hyn ei gefnogi'n dda gan gysylltiadau cryf rhwng y rheolwyr uwch a chanol. Mae wedi bod yn eithriadol o effeithiol wrth sicrhau fod holl aelodau'r staff yn ymroddedig tuag at weithio fel tîm er mwyn symud yr ysgol yn ei blaen. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn eglur iawn ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u hunain a'u dysgwyr.

Mae'r systemau ar gyfer casglu safbwyntiau rhieni, gofalwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb wedi eu sefydlu'n dda. Mae cylchgrawn yr ysgol "Y Leinws Bach" yn gyfrwng nodedig ar gyfer dathlu llwyddiant a chyfathrebu ethos yr ysgol i'r gymuned.

Mae aelodau o'r corff llywodraethu, ac yn benodol cadeirydd y llywodraethwyr, yn wybodus am berfformiad yr ysgol. Mae'r ddealltwriaeth hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad cywir o ddata arholiadau a chymryd rhan mewn adolygiadau adrannol ac ysgol-gyfan. Mae'r corff llywodraethu yn ymgymryd â'i rôl yn effeithiol iawn ac yn gyfaill beirniadol da.

Mae'r ysgol yn diwallu blaenoriaethau cyfredol lleol a rhai Llywodraeth Cynulliad Cymru, megis cydweithio er mwyn cyflwyno'r Llwybrau Dysgu 14-19 a'r gweithdrefnau pontio o'r ysgolion cynradd partner.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth a'i ddirprwy wedi cyflwyno rhaglen hunan arfarnu cynhwysol sydd wedi ei ddogfennu'n dda. Mae'r ddogfen hunan arfarnu yn darparu dadansoddiad cywir a chytbwys o'r cryfderau a'r meysydd ar gyfer gwelliant. Mae'r broses o hunan arfarnu ac adolygu bellach wedi eu sefydlu yng ngweithdrefnau'r ysgol ac wedi bod yn allweddol yn hyrwyddo nifer o welliannau diweddar.

Defnyddia rheolwyr uwch a chanol amrediad da o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau gwers a dadansoddiad o berfformiad arholiadau i ddynodi cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gywir o ba mor dda mae'r ysgol yn perfformio. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yma i gynllunio a sicrhau gwelliant mewn modd llwyddiannus.

Mae'r broses rheoli perfformiad yn dynodi blaenoriaethau ysgol-gyfan ynghyd â datblygiad personol a chodi'r safonau. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safonau yng nghyfnod allweddol 3.

Gwna'r cynllun datblygu ysgol ddefnydd da o ddeilliannau'r hunan arfarnu er mwyn cynllunio i'r dyfodol. Mae'r pennaeth wedi sefydlu cylch rheolaidd o arfarnu ac adolygu. Mae cynlluniau'n dynodi blaenoriaethau a thargedau ar gyfer gwelliant yn

eglur. Maent yn nodi adnoddau, terfynau amser a chyfrifoldebau penodedig yn effeithlon iawn ar gyfer monitro ac adolygu'r meini prawf llwyddiant croyw. Mae'r cynlluniau datblygu adrannol ac ysgol wedi eu cysylltu'n addas.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion allweddol o'r arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, erys peth gwaith i'w wneud i godi safonau yn y pynciau craidd o Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4. O fewn yr ysgol a chyda darparwyr eraill, mae diwylliant llesol o gydweithio rhwng athrawon ac mae cymuned dysgu broffesiynol buddiol yn datblygu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau strategol yn effeithiol iawn gyda'r llywodraethwyr, y rhieni, cyflogwyr ac amrediad o asiantaethau allanol. Mae'r rhain yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at wella lles disgyblion ac ymestyn profiadau a chyfleoedd gwerthfawr.

Trwy gysylltiadau da iawn gydag asiantaethau allanol, rhydd yr ysgol sylw sensitif i faterion personol y disgyblion. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion dderbyn cwnsela a chyngor arbenigol yn cyfrannu tuag at godi safonau yn eu hiechyd a'u lles.

Mae cynllunio ar y cyd gyda phartneriaid o fewn y Llwybrau Dysgu 14-19 yn darparu amrediad eang o ddewisiadau pwnc a lleoliadau profiad gwaith. Mae partneriaethau gyda'r gymuned a busnesau lleol ac adnoddau a rhennir gyda cholegau ac ysgolion eraill wedi ymestyn y ddarpariaeth gwricwlaidd a'r cyfleoedd dysgu.

Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd o fewn y consortiwm Llwybrau Dysgu 14-19 yn effeithiol iawn wrth sicrhau cysondeb yn y safonau.

Mae partneriaethau gydag ysgolion a darparwyr eraill yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gefnogi datblygiad y staff.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda. Ceir lefelau da o effeithlonrwydd a chost effeithiolrwydd, er waetha'r costau ychwanegol sy'n deillio o'r ffaith fod yr ysgol wedi ei lleoli mewn adeilad rhestredig. Mae'n amlwg caiff gwariant ei gynllunio a'i fonitro'n dda iawn gan y pennaeth a'r swyddog cyllid. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn rheoli goblygiadau'r cwymp yn niferoedd y disgyblion yn dda iawn. Maent wedi sicrhau fod digon o gyllid ar gael i ddiwallu anghenion adrannau a blaenoriaethau ysgol-gyfan.

Ceir digon o aelodau staff gyda'r cymwysterau addas ac maent wedi eu lleoli'n effeithlon. Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth dda ar gyfer aelodau staff sydd yn addysgu y tu allan i'w maes arbenigol. Caiff cynorthwywyr addysgu a staff nad ydynt yn addysgu eu lleoli'n effeithiol er mwyn cefnogi'r dysgu.

O ystyried y deilliannau a gyflawnwyd gan y dysgwyr, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 3 dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a'r dangosydd pynciau craidd wedi gwella'n flynyddol. Mae perfformiad mewn Cymraeg iaith gyntaf wedi amrywio ychydig. Gwelwyd y gwelliant mwyaf yn y dangosydd pynciau craidd a mathemateg. Yn 2011, roedd mathemateg yn y chwarter uchaf, gwyddoniaeth a'r dangosydd pynciau craidd yn yr hanner uchaf gyda Saesneg a Chymraeg iaith gyntaf yn agos i'r cyfartaledd o'u cymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim. Roedd hyn yn welliant ar berfformiad 2009. Bryd hynny dim ond Cymraeg iaith gyntaf oedd yn yr hanner uchaf o'u cymharu gydag ysgolion tebyg.

Yn 2011, roedd perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth ar lefel 5 neu'n uwch yn rhoi'r ysgol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu.

Roedd perfformiad ar lefel 6 ag uwch mewn mathemateg yn codi dros gyfnod o dair blynedd. Roedd perfformiad mewn Saesneg, Cymraeg iaith gyntaf a gwyddoniaeth yn amrywio. Yn ystod y cyfnod hwn, dim ond Cymraeg iaith gyntaf yn y chwarter uchaf ar lefel 7 yn 2011 o'i gymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim ac yn uwch na chyfartaledd y teulu.

Roedd perfformiad ar lefel 5 ag uwch yn y rhan fwyaf o'r pynciau nad oeddent yn rhai craidd yn well yn 2011 o'u cymharu gyda 2009. Yn 2011, roedd y perfformiad mewn llawer o'r pynciau nad oeddent yn rhai craidd yn rhoi'r ysgol yn yr hanner uchaf o'i chymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim.

Yn 2011, roedd disgyblion wedi gwneud cynnydd arwyddocaol yn y dangosydd pynciau craidd ac wedi perfformio'n well na'r disgwyl mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg. Roedd cynnydd da iawn hefyd yn amlwg mewn Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg yn seiliedig ar gyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Roedd cynnydd mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn dda. Dros y tair blynedd diwethaf, mae cynnydd o gyfnod allweddol 2 wedi gwella'n sylweddol ac mae bellach yn dda neu'n dda iawn ym mhob un o'r dangosyddion.

Yng nghyfnod allweddol 3 dros gyfnod o dair blynedd, perfformiodd y merched yn well na'r bechgyn yn y rhan fwyaf o achlysuron. Fodd bynnag, perfformiodd y bechgyn yn well na'r merched mewn mathemateg ar lefelau 5 a 6 yn 2009 ac yn 2011. Perfformiodd y bechgyn yn well na'r bechgyn yn y teulu ac yn genedlaethol mewn Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg ar lefel 5 ag uwch. Yn y dangosydd pynciau craidd, perfformiodd y bechgyn yn well na bechgyn yn genedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a'r dangosydd pynciau craidd wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2011, roedd perfformiad yn y ddau ddangosydd yn is na'r hyn oedd yn 2009. Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg, roeddent yn yr hanner neu'r chwarter isaf ac yn is na chyfartaleddau'r teulu dros y cyfnod o dair blynedd.

Roedd perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 1 a lefel 2 yn uwch yn 2011 o'i gymharu â 2009. Roedd y trothwy lefel 2 wedi gwella'n sylweddol. Roedd ychydig o welliant yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio. Yn 2011, roedd y trothwy lefel 1 yn yr hanner uchaf gyda'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio a'r trothwy lefel 2 yn yr hanner isaf o lefelau perfformiad ar gyfer ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim. Roedd perfformiad yn y dangosyddion hyn yn is na chyfartaleddau'r teulu.

Yn ystod 2009-2011, roedd perfformiad mewn Saesneg, Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg ar lefel 2 wedi amrywio gyda'r perfformiad mewn gwyddoniaeth yn disgyn. Ac eithrio Cymraeg iaith gyntaf, roedd perfformiad mewn tri o'r pynciau craidd bob amser yn yr hanner neu'r chwartel isaf o'u cymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim ac yn is na chyfartaleddau'r teulu.

Yn 2011, yn seiliedig ar gyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, roedd cynnydd yn llawer is na'r cyfartaledd ac yn is na'r cynnydd disgwyliedig yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg. Roedd llawer yn is na'r cyfartaledd yn y dangosydd pynciau craidd. Roedd cynnydd yn is na'r cyfartaledd yn y trothwy lefel 2, y sgôr pwyntiau wedi'i chapio a'r sgôr pwyntiau ehangach. Roedd cynnydd yn y trothwy lefel 1 yn uwch na'r cyfartaledd, Yn gyffredinol, roedd cynnydd o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4 yn is na'r cyfartaledd ym mron yr holl ddangosyddion o'u cymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim. Roedd cynnydd mewn cymhariaeth â'r teulu o ysgolion yr isaf ym mron yr holl ddangosyddion. Dros gyfnod o dair blynedd, roedd cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 2 wedi bod yn is neu lawer yn is na'r cyfartaledd ym mron yr holl ddangosyddion.

Yng nghyfnod allweddol 4 dros gyfnod o dair blynedd, perfformiodd y merched yn well na'r bechgyn ar y rhan fwyaf o achlysuron. Fodd bynnag, yn 2010, perfformiodd y bechgyn yn well na'r merched yn enwedig yn y dangosydd trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg, y dangosydd pynciau craidd a lefelau 1 a 2 mewn gwyddoniaeth a mathemateg. Ar y rhan fwyaf o achlysuron, ni pherfformiodd y bechgyn cystal â bechgyn yn genedlaethol nag yn y teulu.

Dros gyfnod o dair blynedd, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 3 sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â'r rhai sydd heb yr hawl i brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, roedd y bwlch rhwng y ddau grŵp yn y dangosydd pynciau craidd yn llai na'r bwlch yn genedlaethol ac yn cael ei leihau'n flynyddol. Mae disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn perfformio'n well na disgyblion tebyg o'u cymharu gyda'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae'r sefyllfa mewn perthynas â chyfartaleddau'r teulu yn gwella. Mae disgyblion mwy galluog a dawnus yn perfformio'n dda. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn perfformio'n dda mewn mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 3. Yng nghyfnod allweddol 4, maent yn perfformio yn bennaf yn ôl y disgwyl.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad y disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn gyson is na pherfformiad y rhai sydd heb yr hawl i brydau ysgol am ddim ym mron yr holl ddangosyddion. Yn 2010, roedd y bwlch rhwng y ddau grŵp yn llai na'r rhai yn genedlaethol yn yr holl ddangosyddion. Mae perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, mewn cymhariaeth â disgyblion tebyg, bron bob amser yn is na chyfartaleddau'r teulu yn yr holl ddangosyddion. Fodd bynnag, mae

disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn perfformio'n well na disgyblion tebyg o'u cymharu gyda'r cyfartaleddau cenedlaethol yn y dangosydd trothwy lefel 1 dros gyfnod o dair blynedd.

Dros y tair blynedd diwethaf, gadawodd bron yr holl ddisgyblion yr ysgol gyda chymhwyster cydnabyddedig ar ddiwedd Blwyddyn 11. Parhaodd y rhan fwyaf o ddisgyblion â'u haddysg llawn amser yn yr ysgol, addysg bellach neu mewn swydd dan hyfforddiant. Adroddir nad yw tua 2% o ddisgyblion Blwyddyn 11 a adawodd yr ysgol mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Dros gyfnod o dair blynedd, mae myfyrwyr y chweched dosbarth wedi perfformio'n gadarn yn y trothwy lefel 3 sydd tua'r cyfartaleddau cenedlaethol. Maent yn perfformio'n dda iawn yn y sgôr pwyntiau ehangach sydd lawer yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol yn ystod y cyfnod hwn. Mae perfformiad y myfyrwyr yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru ac ar raddau A* i C ar lefel Uwch yn dda i dda iawn.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni/gofalwyr

Derbyniodd Estyn 105 o ymatebion i holiadur y rhieni. Rhoddodd lawer o'r rhieni ymatebion cadarnhaol i'r holl gwestiynau. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion hyn yn agos at yr ymatebion cadarnhaol a dderbyniwyd oddi wrth rieni dysgwyr mewn ysgolion uwchradd eraill.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn fodlon â'r ysgol ac yn teimlo caiff eu plant eu helpu i ymgartrefu i ysgol newydd lle maent yn hapus a diogel. Dywed y rhan fwyaf o rieni bod eu plant yn gwneud cynnydd da a bod yr ysgol yn eu hysbysu am gynnydd eu plant. Mae aelodau staff yn disgwyl i'r disgyblion rhoi o'u gorau ar bob adeg ac yn darparu cymorth ychwanegol yn ôl y galw. Caiff y disgyblion eu hannog i fod yn iach ac i ymgymryd ag ymarfer corff rheolaidd.

Dywed llawer o rieni fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Mae'r addysgu'n dda a'r disgyblion yn ymddwyn yn dda.

Mae llawer o rieni o'r farn fod disgyblion yn cael eu trin yn deg. Mae rhieni yn gallu mynd i'r ysgol i drafod unrhyw fater ac mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio gyda chwynion yn eglur. Caiff eu plant eu datblygu i ddod yn fwy aeddfed ac i ymgymryd â chyfrifoldeb. Creda'r rhieni fod ystod dda o weithgareddau allgyrsiol ar gael.

Dywed llawer y rhoddir cyngor da i'w plant wrth iddynt baratoi i symud i'w hysgol neu goleg nesa neu i fyd gwaith a bod eu gwaith cartref yn briodol.

### Ymatebion i'r holiadur i ddisgyblion

Derbyniodd Estyn ymatebion oddi wrth 104 o ddisgyblion. Nid oedd unrhyw wahaniaeth mawr rhwng safbwyntiau'r bechgyn a rhai'r merched. Rhoddodd y rhan fwyaf o ddysgwyr ymatebion cadarnhaol i'r holl gwestiynau. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion hyn, yn y rhan fwyaf o achosion, yn fwy cadarnhaol na'r ymatebion a dderbyniwyd oddi wrth ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd eraill.

Dywed yr holl ddysgwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod cyfleoedd niferus i ymgymryd ag ymarfer rheolaidd.

Mae gan y rhan fwyaf ddigon o adnoddau ac yn gwneud yn dda. Mae athrawon yn cefnogi disgyblion i ddysgu ac i wneud cynnydd. Mae bob amser rhywun iddynt siarad â nhw os oes ganddynt bryderon. Caiff y rhan fwyaf eu hannog i wneud pethau dros eu hunain ac i fod yn gyfrifol am weithredoedd eu hunain. Cânt hefyd eu helpu i ddeall ac i barchu eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn fodlon â'r modd y cânt eu paratoi ar gyfer bywyd ar ôl ysgol. Derbynia lawer gyngor da wrth ddewis cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Mae llawer o'r dysgwyr yn gwybod sut i gadw'n iach. Creda llawer fod yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau a bod yr ysgol yn dda wrth ddelio a bwlian. Cânt eu parchu a'u trin yn deg. Dywed llawer fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith.

Mae llawer o ddysgwyr o'r farn fod ymddygiad yn y dosbarth yn dda a'u bod yn gallu mynd ymlaen â'u gwaith yn y dosbarth. Fodd bynnag, creda lleiafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 y caiff eu gwaith ei effeithio gan ymddygiad ychydig o ddisgyblion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gwyn Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| David Hughes | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Bethan Bale | Arolygydd Cymheiriaid |
| Aaron Bayley | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |